OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2011 Rhif 102 (Cy. 22)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Man i'r Gorllewin o Bont Canaston, Ger Arberth, Sir Benfro) (Cyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *20 Ionawr 2011* |
| *Yn dod i rym* | *31 Ionawr 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Llundain – Abergwaun (yr A40) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoli Traffig Ffyrdd 1984(**1**) a phob pŵer galluogi arall(**2**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 31 Ionawr 2011. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Man i'r gorllewin o Bont Canaston, Ger Arberth, Sir Benfro) (Cyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2011.

**2.** —1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "y darn o'r gefnffordd" *("the length of the trunk road")* yw'r darn o gefnffordd yr A40 Llundain – Abergwaun, i'r gorllewin o Bont Canaston, yn Sir Benfro, sy'n ymestyn o bwynt wrth ei chyffordd â ffordd sirol yr C3090 hyd at bwynt 300 o fetrau i'r dwyrain o'i chyffordd â Toch Lane;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 31 Ionawr 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu tynnu oddi yno'n barhaol.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.